Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o’r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 62** **Calan 2023**



*‘A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith,*
*eich llenwi â phob llawenydd*
*a thangnefedd …’*

# Eira Glân

Wedi cawod drom o eira a'r cwrlid gwyn yn cuddio pob dim, gall hyd yn oed y garddwr salaf ymfalchïo yn harddwch ei dir.

A daw i'n cof aeafau ein plentyndod, cyn i gynhesu byd-eang newid ein hinsawdd. Cofiwn weld trwch o eira yn disgyn a'r ffordd heibio'r tŷ yn gannaid gwyn, heb ôl nac olwyn, na throed, i dorri ar ei arwynebedd dilychwin.

## Gobaith

Boreau llawn gobaith i mi oedd y boreau hynny wedi i'r eira ddisgyn yn drwch. A'r gobaith mwyaf oedd na fedrai bws yr ysgol gyrraedd y pentref ac na fyddai'n rhaid wynebu caethiwed y dosbarth pan oedd cymaint o bosibiliadau eraill yn eu cynnig eu hunain i ni!

A dwi'm yn amau chwaith bod yna rywbeth yr un pryd oedd yn ddwfn ynof oedd am beidio ag amharu, hyd yn oed am foment, ar brydferthwch arwynebedd perffaith y dirwedd lân.

Daw rhyw ias nid annhebyg i'n rhan wrth i ni groesi trothwy Blwyddyn Newydd.

Fe wyddom mai dim ond diwrnod ydy o. Rhif ar bapur. Ffordd o fesur amser. Blwyddyn newydd a mis newydd a thudalen lân mewn dyddiadur. Ond am foment mae'r tudalennau'n gwbl lân, ac am foment maent yn arwyddo gobaith. Tudalennau glân ein 'edrych mlaen', heb ôl ymyrraeth unrhyw un arnynt. Tudalennau gweigion na chafodd prysurdeb ein hamserlenni, na dagrau siom, nac ofn, na phoen eu cymysgu ag inc ein cofnodi.

Yn y 'gobaith' hwnnw a ddaw i ni wrth edrych ar dudalennau dilychwin ein misoedd y byddwn ninnau'n dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i bawb. Ein dymuniad yw profi a rhannu 'gobaith'. Buan y cawn ein siomi gan ddigwyddiadau'r byd.

## Camu

Ond doedd dim modd cadw tlysni'r eira am hir amser rhag cael ei lygru. Buan y deuai ôl troed rhyw oedolyn ansensitif i obeithion plentyn am gael osgoi ysgol, a gadael ei farc yn y llyfnder.

Cymaint fyddai ein hawydd i gadw hud y gwynder fel y byddem yn ceisio gosod ein camau yn ôl troed pwy bynnag oedd wedi mentro cerdded drwy'r trwch. A hyd heddiw, os gadewir ôl troed mewn eira, bydd nifer ohonom yn dal i gofio ein hawydd plentynnaidd i beidio â difetha'r swyn, a byddwn yn dal i geisio camu yn ôl troed yr un a adawodd ei ôl yn yr eira.

Ar ddechrau blwyddyn newydd, byddwn oll yn dewis ein *cyfeiriad* ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Ein cyfeiriad fydd yn pennu pa *lwybr* a gymerwn, a beth fydd yn cael y flaenoriaeth yn ein bywyd.

Ni sydd i ddewis, neb arall.

Gallwn, fe allwn ddewis cefnu ar lais grasol yr Arglwydd Iesu Grist, tiriondeb ei alwad, a'r arswyd o edifarhau a dychwelyd ato. Neu fe allwn geisio gosod ôl ein traed lle y mae ef yn rhodio ar lwybr bywyd, llwybr gobaith.

Er bod croes ar ei ganol, llwybr yw hwn sy'n arwain i fywyd. Llwybr Gobaith ydyw, a Duw ei hun yw ei gynllunydd; Iesu Grist yw'r 'ffordd' dragwyddol honno gan fod gwirionedd a bywyd yn sail ac yn arwynebedd iddi. Yr Ysbryd Glân yw'r hwn sy'n ein tywys i ddewis cerdded y llwybr hwn ac ef yw ein cydymaith ffyddlon, diddanydd a chyfarwyddwr wrth i ni ei cherdded.

## Gwahoddiad

Mi wn fod nifer o'n 'haelodau' am ba reswm bynnag wedi ymbellhau o'r oedfaon ar y Sul. Ond y mae dechrau blwyddyn newydd yn cynnig cyfle newydd i ni feddwl am ein *cyfeiriad* a'n *llwybr* yn ystod 2023. Hoffwn eich gwahodd felly i ddewis ymuno gyda ni ar y Sul fel y medrwn gyda'n gilydd geisio adnabod harddwch Iesu Grist.

Wrth i minnau ddymuno Blwyddyn Newydd Dda dyma yw fy ngweddi syml ar ein rhan:

> **'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.'** (Rhufeiniaid 15:13)

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 1 Ionawr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog dros Zoom am 10 o'r gloch |
| 5 Ionawr | 'Gwreiddiau' a chlonc dros baned 10.30–11.30 o'r gloch dros Zoom |
| 22 Ionawr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog yng Nghapel Rehoboth am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Hadau Gobaith |
| 3 Mawrth | Dydd Gweddi'r Byd |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

*Dymunwn Nadolig Llawen*
*a Blwyddyn Newydd Dda*
*i holl ddarllenwyr 'Gair o'r Garn'*

*Diolch am eich cefnogaeth*

# Tudalen y Plant – llyfrau newydd sbon

## Delfrydol ar gyfer yr hosan Nadolig!

***Y Nadolig Cyntaf* – *beibl.net***

**Llyfr pop-yp lliwgar a hudolus fydd yn dod â stori'r Nadolig cyntaf yn fyw i blant ifanc.**

**Pris: £7.99 (clawr caled)**







***Fy Llyfr Dysgu Tynnu Llun: Storïau Beiblaidd***

**Llyfr gweithgaredd tynnu llun (sychu'n lân a phin) i'r plant lleiaf, yn cyflwyno straeon cyfarwydd o'r Beibl mewn ffurf syml, yn cynnwys: Arch Noa, Joseff, Daniel, hanes Geni Iesu a'r Nadolig Cyntaf. Addas i blant 3 oed a throsodd.**
**Pris: £7.99 (clawr caled)**

# Hadau Gobaith

Mae Apêl Hadau Gobaith, sef apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Cymorth Cristnogol, bellach yn canolbwyntio ar Honduras.

Gwlad yng Nghanolbarth America yw Honduras, wedi ei lleoli rhwng Guatemala i'r gorllewin a Nicaragua i'r dwyrain. Mae'n rhan o'r hyn sy'n cael ei alw'n 'goridor sych' – llain o dir yn ymestyn o dde Mecsico i Panama – sy'n hynod fregus i newid hinsawdd oherwydd bod nifer fawr o bobl yn byw yng nghefn gwlad ac mewn tlodi yno.

Yn sgil newid hinsawdd, gwelwyd stormydd erchyll a thirlithriadau sydd wedi dinistrio tai a chnydau. Yn wir, mae sychder a llifogydd yn gallu difetha cnydau coffi. Bu Cymorth Cristnogol yn gweithio yn Honduras ers 1997. Agwedd pwysig o'u gwaith yno ydi ceisio dileu llygredd a hybu tryloywder, gan helpu dinasyddion i gadw'r llywodraeth yn atebol wrth iddynt alw am fwy o fuddsoddiad mewn merched, cymunedau brodorol a phobl ifanc.

Diolch i bawb sydd wedi eisoes cyfrannu ar gyfer yr apêl bwysig hon, fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i  Os nad ydych chi wedi cyfrannu ac yn dymuno gwneud hynny, cysylltwch â Swyddogion eich eglwys, os gwelwch yn dda. Bydd yr apêl yn dirwyn i ben adeg y Pasg 2023.



Trwy'r apêl, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n sefyll mewn undod gyda'n brodyr a'n chwiorydd gan eu helpu i blannu hadau gobaith am ddyfodol gwell.

www.ebcpcw.cymru/cy/apel-cymorth-cristnogol/



## Gwreiddiau a chlonc dros baned

Bu nifer yn holi'n ddiweddar tybed a oeddem yn bwriadu cynnal grŵp Gwreiddiau yn ystod y gaeaf hwn?

Fy nymuniad personol fyddai cynnal y grŵp a'i gyfuno, fel y gwnaethom yn ystod y gaeaf diwethaf, â sgwrs anffurfiol dros baned. Ni fydd yn gyfarfod 'trwm'. O feddwl am ein cyfarfodydd y llynedd a'r blas a gafwyd ar y trafodaethau, cofiwn sut y bu'n rhaid i ni dorri ar y sgyrsiau gan fod peryg i ni ymestyn ymhell dros ein hamser penodedig!

Bwriadwn gyfarfod am y tro cyntaf dros Zoom fore Iau, 5 Ionawr 2023, a hynny dros baned rhwng 10:30 ac 11.30.

Ni fydd yn gyfarfod ffurfiol, ond yn gyfle i ni gael sgwrs a chanfod y budd a ddaw i ni o wreiddiau ein ffydd. Ac wrth i ni symud o 'Fethlehem i'r Groes' yn nhymor y Grawys, cawn gyfle gyda'n gilydd i droedio tuag at obaith a buddugoliaeth y Pasg.

Edrychwn ymlaen at rannu'r amser gyda chi. Gobeithio y medrwch ddod. Dwi'n addo na fyddwch yn difaru.

*Watcyn James*

## Dathlu cyfraniad Ieuan Gwyllt

Nos Sul, 2 Hydref, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, i ddathlu cyfraniad 'Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr'. Mae'n amlwg, o'i ddewis enw, fod John Roberts (1822–77) yn anwylo bro ei febyd. Ond buan y talfyrrwyd ei enw barddol trwsgl i 'Ieuan Gwyllt'.

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i glywed cyflwyniad gan Dr Rhidian Griffiths am fywyd Ieuan Gwyllt, a chawsom gyfle i ganlyn ei yrfa o Gapel Seion i Ben-llwyn, o Aberystwyth i Lerpwl, o Aberdâr i gapel Pant-tywyll, ger Merthyr Tudful, ac o'r Capel Coch, Llanberis, i'w gartref wedi ei ymddeoliad yn y Fron, Llanfaglan. Cawsom gyfle i glywed am ei gyfraniad i'r diwylliant Cymraeg, ei gyfnod fel golygydd, ac yn bennaf am ei waith yn hybu canu cynulleidfaol.

Rhwng y gwahanol 'benodau' o'i fywyd cawsom gyfle i ganu rhai o'i emyn-donau ac addasiadau ganddo o emynau mawreddog sy'n parhau i fod yn adnabyddus – tonau urddasol fel Liverpool, Dusseldorf a Moab. Canwyd rhai o'r emynau 'lolipop' poblogaidd a hybwyd gan Ieuan Gwyllt, caneuon a boblogeiddiwyd yn y lle cyntaf gan Sankey a Moody. I derfynu, canwyd ei addasiad o eiriau Lewis Hartsough, 'I hear thy welcome voice'. Gwell na'r emyn gwreiddiol yw geiriau Ieuan Gwyllt, 'Mi glywaf dyner lais'!





Arweiniwyd y canu gyda'i brwdfrydedd arferol gan Margaret Daniel, Blaenannerch, a chyfeiliwyd i'r canu gan Alan Wynne Jones, Bow Street. Rhyngddynt llwyddwyd i ddenu canu rhagorol o'r gynulleidfa. Llywyddwyd y noson gan Bronwen Morgan, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, a ddiolchodd yn garedig i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniad. Cyflwynwyd y fendith gan y Gweinidog, y Parch. Ddr R. Watcyn James, a gafodd y syniad gwreiddiol o drefnu oedfa i nodi dauganmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt.

Llawenydd oedd cael gweld cynifer wedi aros i sgwrsio o amgylch y wledd o groeso a ddarparwyd gan aelodau Pen-llwyn. A derbyniwyd mewn casgliad rhydd y swm o £232 tuag at Apêl Hadau Gobaith. Diolchwn fod 'Gwahoddiad' yr efengyl yn parhau i alw arnom at Iesu i'n golchi, i gryfhau gwaith gras o'n mewn ac i'w ogoneddu ym mhob oes.

# Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Mae'r Chwiorydd wedi bod yn dod at ei gilydd ar brynhawn Mercher cyntaf y mis i gael cwpanaid a sgwrs gyfeillgar, anffurfiol. Ar 7 Rhagfyr, mwynhawyd paned a mins pei yng Nghrefftau Pennau, a braf oedd y sgwrsio yno hefyd. Dyma'r ymgyrchoedd y mae'r Chwiorydd yn eu cefnogi ar hyn o bryd:

**Stampiau oddi ar amlenni i Gymdeithas y Deillion**
**–** er enghraifft, stampiau oddi ar gardiau Nadolig. Torrwch nhw'n ofalus, gan adael ymyl o ryw 1cm o'r amlen o amgylch y stamp.

**Arian neu newid mân tuag at Water Aid**
– os oes gennych unrhyw newid neu arian mân yn sbâr, mae jar ar gael yn y capel i dderbyn eich cyfraniadau.

**Nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd**
– bydd bocsys ar gael yn y capel ym mis Ionawr i dderbyn cyfraniadau tuag at y banc bwyd lleol, Jubilee Storehouse, e.e. bwydydd sych, tuniau, yn y blaen. Diolch am bob cyfraniad.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Shân Hayward.



## Capel y Garn

## Ionawr

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

1 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch dros Zoom

4 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Paned a sgwrs yn y festri am 2 o'r gloch

8 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

15 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Athro John Tudno Williams

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Gafel yn y Tir' gyda Lowri Jones,
Cydlynydd Prosiect Bro 360, Cwmni Golwg

22 Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel Rehoboth
dan arweiniad y Gweinidog
Casgliad tuag at Hadau Gobaith

29 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

Anfonwn eich cofion at aelodau a chyfeillion eglwysi'r ofalaeth sy'n wynebu afiechyd neu gyfnodau anodd yn eu bywydau ar hyn o bryd. Hyderwn eich bod yn profi nerth a chariad Duw yn eich amgylchynu ac yn eich cynnal drwy'r adegau blin.

## Capel y Garn

## Chwefror

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

| | |
|---|---|
| 1 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>Paned a sgwrs yn y festri am 2 o’r gloch |
| 5 | Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa<br>am 10 o’r gloch |
| 12 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch |
| 17 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch<br>Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes,<br>Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus,<br>Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| 19 | Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths<br>am 10 o’r gloch |
| 26 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch |

Cydymdeimlwn yn ddwys â Lowri, Iestyn a Ffion yn eu profedigaeth lem o golli gŵr a thad arbennig, Alun Evans, Fronddêl. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn eich cofio yn ein gweddïau.

Llongyfarchiadau calonnog i John a Joyce Bowen ar ddathlu eu priodas aur ar 28 Hydref.

# Capel y Garn

## Mawrth

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

1 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Paned a sgwrs yn y festri am 2 o'r gloch

3 Dydd Gweddi'r Byd – manylion i ddilyn

5 Oedfa dan arweiniad y Parch Wyn Morris
am 10 o'r gloch

12 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni
Gwenan Gibbard – manylion i'w cadarnhau

19 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

26 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch




'Clywais am eich ffydd' yw thema gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2023 ac fe'i paratowyd gan Chwiorydd Taiwan. Arlunwaith Hui-Wen HSAIO a ddewiswyd ar gyfer y clawr a dywed: 'Fel merch, rydw i eisiau archwilio'r hunaniaeth fenywaidd trwy fy ngwaith celf. Mae fy mhynciau celf bob amser yn darlunio perthynas mamau, merched, a phobl. Yn fy arddangosfeydd, rwy'n arddangos celf ar y thema mamau er mwyn mynegi fy niolchgarwch a'm ffydd. Rwy'n gwerthfawrogi'r dalent a roddwyd imi gan Dduw ac yn gwasanaethu Duw â'm gwaith celf. Rwy'n mawr obeithio y bydd pobl yn dod i adnabod Duw trwy fy nghelf.'

## Dechrau o’r dechrau

Gweddïo yw cydnabod gerbron Duw mawr a sanctaidd nad ydym, ynom ein hunain, yn bobl fawr na sanctaidd. Gweiniaid ydym sydd yn ein balchder di-sail yn tybio y medrwn drefnu ein llwybrau, creu ein diogelwch, rhodio ar hyd llwybrau ein rhawd ddaearol, heb gwmni ein Crëwr, ein Tad, ein Gwaredwr, ein Diddanydd.

Gweddi yw cydnabod mai rhodd yw ein bywyd a’n bod yn byw, yn symud ac yn bod ar ganiatâd ein Harglwydd tirion, i’r hwn mae pob blewyn o wallt ein pennau wedi eu cyfrif.

Gweddïo *heddiw* yw’r gydnabyddiaeth *heddiw* fod angen maddeuant, arweiniad a chwmni Duw arnom eto *heddiw*. Nid llety’r balch yw noddfa gweddi.

Yn ein hymostyngiad poenus o lawen ildiwn ein coron, ein hawl hunanol i eistedd ar orseddfainc ein calonnau. Mae’n ddarostyngiad poenus am fod y *Fi* fawr yn gorfod ildio’i goron gerbron unig Arglwydd a barnwr yr holl fyd. Mae’n llawen am mai i frenhiniaeth dyner, gwaredigol yr Arglwydd Iesu Grist y cefais fy ngwahodd. Ac iddo ef yr wyf yn diosg fy nghoron a’i gosod ar ei ben. Ef yn unig sydd â’r hawl.

Ar ein gliniau cawn fesur gwirioneddol o bwy ydym ac yno hefyd cawn gipolwg ar aruthredd yr hwn sy’n sefyll trosom, yn eiriol trosom, gerbron y Tad. Ac yno cawn ein llenwi â rhyfeddod na chefnodd ei Ysbryd Glân arnom ar waethaf ein methiannau lu.

Rhidyll yw’r galon ddynol. Prin y gellir ei llenwi gan ras heb i’r fendith lithro o’n gafael. Gweddïo yw gofyn am gael bod gerllaw'r ffynnon a chaniatáu i’r bendithion hynny lifo’n ddi-baid drosom a thrwom.

Ar ddechrau blwyddyn newydd, beth am gymryd egwyl i gyflwyno’r flwyddyn newydd a’n holl ofnau a’n llu o obeithion i ofal yr Arglwydd?

## Gweddi

Arglwydd Dduw, yr ydym am droi atat ti fel unig ffynhonnell gobaith.

Rwy'n cyfaddef ger dy fron fod ofnau lu yn faich
ar fy enaid a phryderon mynych yn llesgáu fy nghalon.

Rwy'n cyfaddef i mi chwilio'n ofer am obaith mewn pobl,
mewn pethau, mewn sefydliadau.

Heddiw rwyf am ddeall o'r newydd, a datgan ger dy fron,
fy mod yn credu mai Ti yw ffynhonnell gobaith.

Llanwa fi â ffydd sy'n credu dy air, sy'n derbyn dy gyfarwyddyd,
sy'n gweithredu'n hyderus ar sail dy drugaredd.

Maddau i mi pan geisiais fynd ar hyd fy ffordd fy hun
a baglu oherwydd fy malchder di-sail.

Maddau i mi am glwyfo pobl eraill.
Maddau i mi pan ges i bethau yn anghywir.

Trwy Iesu Grist, a gallu mewnol dy Ysbryd Glân,
llanwa fy nghalon i, a chalon aelodau dy Eglwys
â llawenydd a thangnefedd wrth i ni geisio darganfod,
gyda'n gilydd, beth yw hyd, lled ac uchder dy gariad
anfesurol di dy hun.

A gweddïaf ar ran pob aelod o'm capel … o'm teulu ...
o'm cydnabod:

'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob
llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd,
nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.'

Amen.

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

Roedd cyfarfod agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn nos Wener, 21 Hydref, yn noson i'w chofio. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i wrando ar gyflwyniad meistrolgar yr Athro Geraint H. Jenkins oedd yn dathlu dawn unigryw Tegwyn Jones, Bow Street.

Cawsom ein tywys drwy yrfa amrywiol Tegwyn – o bentref Benbontrhydybeddau i Ysgol Ramadeg Ardwyn a Choleg Prifysgol Aberystwyth, ei flwyddyn yn athro yn sir Forgannwg, cyn iddo ddod yn ôl i ymuno â staff Geiriadur Prifysgol Cymru. Ymddiddorodd hefyd yn hanes y cymeriad lliwgar Lewis Morris o Fôn, a ymgartrefodd yn ardal Goginan, a barddoniaeth ar ffurf baledi a thribannau.

Ond prif bwyslais y sgwrs oedd cyflwyno dawn Tegwyn fel llenor a chartwnydd dyfeisgar, deifiol ei hiwmor.



Cyfansoddodd gerddi ysgafn a defnyddio'i ddawn fel artist medrus i'w darlunio, gan arddangos ei ffraethineb a dawn ddychanol anghyffredin. Cyfrannodd yn helaeth i amrywiol gylchgronau a bu'n gyfrifol am lunio a golygu nifer o gyfrolau, yn cynnwys casgliadau o limrigau a chartwnau. Mae'n siŵr y bydd llawer yn cofio Cadwgan, y llygoden o'r lleuad, cyfres hyfryd i blant gan Tegwyn a'i frawd, y cartwnydd Elwyn Ioan.

I gyd-fynd â'r sgwrs, trefnwyd arddangosfa o rai o weithiau celf a chartwnau Tegwyn yn y festri, a braf iawn oedd cael cwmni Tegwyn ac aelodau o'r teulu yn y digwyddiad – dechrau ardderchog i raglen y Gymdeithas am eleni.



(uchod) Yr Athro Geraint H. Jenkins gyda Tegwyn Jones a'r teulu

(isod) Dr Angharad Jones, Capel Seion



‘Llwybrau Gofal’ oedd teitl sgwrs ddifyr a dadlennol Dr Angharad Jones yn ail gyfarfod Cymdeithas Lenyddol y Garn, nos Wener, 18 Tachwedd.

Soniodd Angharad yn annwyl iawn am ei magwraeth ar fferm yn ardal Capel Seion, ac yn arbennig am ddylanwad yr ysgol Sul a’r capel a’r amrywiol weithgareddau diwylliannol. Er nad dilyn ôl traed ei mam oedd ei bwriad ar y dechrau, aeth i hyfforddi fel nyrs, gan arbenigo ar ofal plant, a threulio rhai blynyddoedd yn gweithio mewn ysbytai mewn gwahanol ddinasoedd yn Lloegr. Ond gartref yng Nghapel Seion yr oedd ei chalon bob amser, a dod yn ôl fu ei hanes a threulio cyfnod hapus iawn yn gweithio yn Ysbyty Bronglais.

Ond dyw Angharad ddim yn un i orffwys ar ei rhwyfau, ac aeth ati i ennill cymwysterau pellach a chymhwyso fel athrawes nyrsio. Yn ei swydd fel darlithydd gyda Phrifysgol Abertawe, ei gwaith oedd gofalu am fyfyrwyr oedd yn dod ar brofiad gwaith i ganolbarth Cymru. Ond gwelodd fod y niferoedd yn lleihau ac y gallai hynny arwain at broblemau yn y maes gofal yn yr ardal yn y dyfodol. Ac felly, ar gyfer traethawd doethuriaeth, penderfynodd Angharad ymchwilio i’r rhesymau pam nad oedd myfyrwyr nyrsio yn cael eu denu i ganolbarth Cymru.

A phan ddaeth cyfle i Angharad ymuno â staff Prifysgol Aberystwyth a llunio’r cwricwlwm ar gyfer cwrs nyrsio newydd yng Nghanolfan Addysg Gofal Iechyd y Brifysgol, defnyddiodd ei phrofiadau amrywiol a’i hymchwil yn sail ar gyfer llunio cwrs blaengar ac arloesol sy’n ceisio ymateb yn benodol i ofynion arbennig ardal wledig.

Yn wahanol i brofiad Angharad, fydd dim raid i fyfyrwyr nyrsio fynd dros y ffin i Loegr bellach i gael eu hyfforddi, ac mae’n bosib dilyn rhan o’r cwrs ym Mhrifysgol Aberystwyth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar sail ei lwyddiant cychwynnol – a llawer iawn mwy o fyfyrwyr yn gwneud cais nag sydd o leoedd ar gael – y gobaith yw y bydd y datblygiad unigryw yma’n sicrhau dyfodol y sector nyrsio yn y Gymru wledig.

Cyflwynwyd Angharad gan Llio James, Cadeirydd y Gymdeithas, a diolchwyd iddi am sgwrs arbennig iawn gan Gwynfryn Evans.



# Gweddi ar gyfer y rhai sy'n hen

*Bendithia*, Arglwydd,
Y rhai sy'n deall petruster fy ngham
a chryndod fy llaw;
Y rhai sy'n gwybod y bydd fy nghlustiau
yn gorfod ymdrechu i glywed heddiw;
Y rhai sydd yn derbyn bod fy ngolwg
wedi gwanhau a'm hysbryd wedi arafu;
Y rhai sydd ddim yn edrych i ffwrdd
pan lwyddaf i ddymchwel fy nghoffi.

*Bendithia*'r rhai sydd byth yn dweud:
Dyna'r ail dro i ti ddweud yr hanes yna heddiw.

*Bendithia*'r rhai sydd â'r ddawn:
I wneud i mi gofio'r dyddiau hapus a fu;
I'm gwneud yn berson sy'n cael
ei charu a'i pharchu.

*Bendithia*'r rhai sy'n deall
Nad ydw i bellach yn gwybod sut i
gael y nerth i gario fy nghroes.

*Bendithia*'r rhai sydd, drwy eu cariad, yn melysu
Y dyddiau sydd gen i ar ôl i fyw,
Ar y daith olaf hon
tuag at dŷ fy Nhad.

(*Addasiad gan Llinos Dafis o weddi Ffrangeg*)

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 11 Hydref, gan Eiriona Metcalfe. Eryl Evans a Diana Jones oedd y siaradwyr gwadd am y prynhawn. Mae'r ddwy yn byw yn Llandre erbyn hyn, ac yn hoff iawn o waith llaw gan fynychu dosbarth yn Llandre. Hefyd maent yn aelodau o Gymdeithas Brodwaith Cymru. 'Arddangosfa gwaith llaw' oedd testun eu sgwrs, a daeth y ddwy â phob math o eitemau hyfryd i'w dangos i ni, a'r cyfan wedi ei wneud ganddynt â llaw. Roedd y ddwy wedi dechrau gwnïo yn yr ysgol gynradd ac roedd yr eitemau hynny'n dal ganddynt. Wrth fynychu gwahanol ddosbarthiadau ar hyd y blynyddoedd, maent wedi cynhyrchu nifer fawr o eitemau mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys cwiltiau lliwgar, clustogau, bagiau o bob math, lluniau, teganau meddal, a llawer, llawer mwy. Roedd pawb wedi rhyfeddu wrth weld yr holl waith cywrain oedd ar y bwrdd o'n blaen, a'r cyfan yn werth ei weld. Diolchwyd yn gynnes i Eryl a Diana am brynhawn hyfryd, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Myfanwy Rowlands ac Ann Humphreys.

Medi Jones Jackson, Bow Street, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod brynhawn dydd Mawrth, 8 Tachwedd, a bu'n sôn am rai o 'Ferched Enwog Cymru'. Cafodd Medi ei hysbrydoli i ysgrifennu'r gyfrol *Genod Gwych a Merched Medrus* oherwydd y diffyg sylw sydd i hanes merched o Gymru. Mwynhaodd y gwaith o ymchwilio i hanes y merched ac, ar ôl llunio rhestr hir o rai cymwys ar draws Cymru, yn y diwedd penderfynodd gynnwys hanes chwech ar hugain o ferched hanesyddol a chyfredol yn y gyfrol. Mae pob un o'r merched rhyfeddol yn y gyfrol wedi gwneud enw iddi'i hun yn ei maes ei hun, megis cerddoriaeth, llenyddiaeth, hanes, seryddiaeth, gwyddoniaeth, celf, chwaraeon a llawer mwy. Yn y gyfrol daw'r straeon yn fyw gyda llawer o ffeithiau a delweddau lliwgar, â'r posau a gweithgareddau yng nghefn y llyfr i gadw diddordeb y darllenwyr ifanc.

Yn dilyn llwyddiant y gyfrol gyntaf, cyhoeddwyd ail gyfrol o *Genod Gwych a Merched Medrus*, ac erbyn hyn cyhoeddwyd y llyfr yn Saesneg o dan y teitl *Wondrous Women of Wales*. Yn ystod y cyfarfod dewisodd Medi dair o ferched dylanwadol i sôn wrthym amdanynt, sef Frances Hoggan, Annie Atkins a Vulcana, a'r rhain yn enwau anghyfarwydd i nifer ohonom. Diolchwyd yn fawr i Medi am ei gweledigaeth wrth gyhoeddi llyfrau o'r fath fel bod plant Cymru heddiw yn dysgu mwy am ein hanes. Mwynhawyd y te a baratowyd gan Non Griffiths (gyda chyfraniad gan Eirlys Jones a fethodd fod yn bresennol).

*Carys Briddon*



## Gwasanaeth Nadolig Capel Pen-llwyn

Ar fore gaeafol ar 11 Rhagfyr mentrodd aelodau, cyfeillion, plant ac ieuenctid i'r oedfa dan arweiniad ein Gweinidog, Dr Watcyn James. Cafwyd darlleniadau, emynau Nadoligaidd, ac adroddiad ganddynt cyn i stori'r Nadolig gael ei dangos ar fideo. Rhaid oedd gwrando a gwylio'n ofalus oherwydd roedd cwis pwysig i ddilyn. Flwyddyn ar ôl blwyddyn adroddir yr hanes, ond bob blwyddyn ni ellir peidio â rhyfeddu at berthnasedd y neges i ni heddiw.

Catrin Evans oedd y gyfeilyddes ac roedd y cyhoeddiadau yng ngofal Delyth Davies, gyda Jean Watson yn cyhoeddi'r emyn olaf. Diolchwyd i'r Gweinidog am ei wasanaeth drwy gydol y flwyddyn.

Bu'r aelodau'n garedig iawn wrth gyfrannu tuag at y Banc Bwyd ym Mhenparcau, ac fe drosglwyddir y casgliad at apêl Hadau Gobaith. Dosbarthwyd siocledi i'r rhai a gymerodd ran a dymunwyd Nadolig Llawen iawn i bob un. Crëwyd naws gynnes y Nadolig yn yr oedfa a'n paratoi bob un at y rheswm pam ein bod yn dathlu'r Nadolig o gwbwl. Diystyr fyddai'r cyfan oni ddathlwn eni'r Baban ym Methlehem, ond rhaid cofio nad neges wedi ei chyfyngu i'r Nadolig yn unig yw neges yr Efengyl. Mae'r Iesu'n dymuno i ni roi ein calonnau iddo, rhoi ein bywydau yn ei ofal Ef. Beth amdani'r Nadolig hwn?

Dymuniadau gorau i chwi bob un.

*Heulwen Lewis*

## Dychmygu William Morgan

Cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg – a datblygiad ffotograffiaeth – ychydig a wyddom ni ynghylch pryd a gwedd enwogion y gorffennol, sut rai oeddynt o ran eu golwg a'u hymddangosiad. Gydag eithriadau prin (megis Catrin o Ferain y comisiynodd ei gŵr cyfoethog arlunwyr i baentio portreadau ohoni), cynnyrch dychymyg yn bennaf yw ein delweddau o enwogion Cymru cyn oes Victoria. Byddai eiconograffeg enwogion Cymru – sut y'u darluniwyd mewn gweithiau celf – yn bwnc ymchwil diddorol.

Tybed a fu ichi feddwl erioed sut un o ran pryd a gwedd oedd yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl? 'Wyddom ni ddim, wrth gwrs, ond er hynny fe'i darluniwyd gan artistiaid ar bapur a hefyd mewn marmor, pren, a chlai. Hyd y gwn i, mae o leiaf bedwar cerflun ohono. Yr enwocaf a'r hynaf ohonynt yw'r un o waith R. L. Boulton, cerflunydd o Cheltenham, ar y gofeb a godwyd yn 1892 o flaen eglwys gadeiriol Llanelwy i goffáu cyfieithwyr y Beibl.



Fe geir cerfluniau eraill mymryn yn ddiweddarach ohono, ar dalcen llyfrgell Prifysgol Bangor (tua 1911) ac yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, un o blith nifer o gerfluniau o Gymry enwog a ddadorchuddiwyd gan Lloyd George yn 1916. Ond efallai mai'r cerflun mwyaf trawiadol o'r esgob yw'r un diweddaraf, un saith droedfedd o uchder a gerfiwyd o bren derw gan Barry Davies, cerflunydd nodedig o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, yn 2012. Fe'i gosodwyd yn wreiddiol o flaen Neuadd y Pentref yn Llanrhaeadr, cyn ei symud yng Ngorffennaf 2021 i eglwys y plwyf i'w ddiogelu rhag y tywydd. Os ewch ar grwydr i Lanrhaeadr, manteisiwch ar y cyfle i weld y gwaith arbennig hwn. (Mae cerflun marmor o Ddewi Sant gan Barry Davies yn Eglwys Gadeiriol Gatholig Caerdydd, ac un arall marmor ganddo o Lywelyn Fawr yn Eglwys Gadeiriol Caerwrangon (Worcester).)

Pan ddathlwyd pedwarcanlwyddiant cyfieithu'r Beibl yn 1988 fe brynais gopi o'r  ffacsimili o Feibl gwreiddiol William Morgan a gyhoeddwyd ar y pryd. Ond hyd yn ddiweddar ni wyddwn am wrthrych arall a luniwyd i ddathlu'r pedwarcanmlwyddiant.




Rhaid diolch i Mrs Nans Morgan am dynnu fy sylw at ddarn o gelfyddyd yn coffáu'r esgob a luniwyd yn 1988. Darn sylweddol o grochenwaith – un modfedd ar ddeg o uchder – yw hwn, gwaith arlunydd a chrochenydd o'r enw Harvey Thomas (1932–2017), gŵr o Bontiêts yn sir Gaerfyrddin a fu'n Ddarlithydd Celf yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin o 1965 hyd 1985.  Yn ei stiwdio yng Nghapel Dewi yn Nyffryn Tywi fe gynlluniodd Harvey Thomas nifer o ddarnau crochenwaith i ddathlu enwogion Cymru, megis 'Cyfres Cofio', cyfres o blatiau a gynhyrchwyd ar ei ran gan gwmni A. ac M. Griffiths, Felingwm, yn darlunio ymhlith eraill Gerallt Gymro, Owain Glyndŵr, a Williams Pantycelyn. Yn 1988 fe gynlluniodd blât i goffáu William Morgan. Ond fe luniodd hefyd ddelweddau crochenwaith tri dimensiwn o enwogion fel Griffith Jones, Llanddowror, Mari Jones, ac o William Morgan yntau.

Darn felly yw'r darn crochenwaith y tynnodd Nans Morgan fy sylw ato. Fe gostiai £400 i'w brynu yn 1988, tipyn o bris yn y cyfnod.[1] Yn wahanol i'r cerfluniau ohono – sy'n darlunio William Morgan ar ei sefyll – ei ddarlunio yn eistedd ar ei orsedd esgobol a'i Feibl yn ei ddwylo ar ei lin a wnaeth Harvey Thomas. Tybed a ŵyr rhywun ymhlith darllenwyr *Gair o'r Garn* am ddarnau tebyg i William Morgan a luniwyd gan Harvey Thomas heblaw y rhai y cyfeiriais atynt uchod?

*Gruffydd Aled Williams*

[1] *Diolch i'r Parch. Aled Davies, Chwilog, am yr wybodaeth hon.*

## Gair o Galondid




Nod y gyfrol fach hon yw codi calon a rhoi hwb i'r ysbryd. Caryl Parry Jones sy’n gyfrifol am ddethol y casgliad hyfryd hwn o gerddi, caneuon, emynau a dyfyniadau sy’n llawn anwyldeb a hiwmor, ac mae’r lluniau hefyd yn ychwanegu lliw i’r cyfan. (Gwasg y Bwthyn, clawr caled; pris £9)

Dyma ambell ddyfyniad o’r gyfrol:

*Mae caredigrwydd fel yr eira – mae’n harddu popeth mae’n ei gyffwrdd.* (Kahil Gibran)

Gofid yng nghalon gŵr a bair iddi grymu ond gair da a’i llawenha hi. (Diarhebion 12:25)

**Pan fydd grym cariad yn gorchfygu cariad at rym, bydd y byd yn adnabod heddwch.** (Jimi Hendrix)

*… pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy.*
(Mathew 7:12)

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **12 Mawrth** i’r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com